Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 13.04.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# LLONGYFARCHIADAU: Llwyddiant i fusnesau o Wynedd yng Ngwobrau FSB Cymru

Llongyfarchiadau i'r ddau enillydd lleol yng Ngwobrau Dathlu Busnesau Bach FSB 2022 yr wythnos diwethaf. Enillodd Faces by Poppy, o Fangor, Wobr Entrepreneur Ifanc y Flwyddyn ac enillodd y manwerthwr Adra, o Gaernarfon, y Wobr Digidol/e-fasnach. Mae mwy am y stori ar:

https://businessnewswales.com/fsb-wales-small-business-awards-2022-winners-announced/

# TECH: Gweithdai Tref SMART – Aberdaron a Blaenau Ffestiniog

Oeddech chi'n gwybod bod systemau Tref SMART – sy'n darparu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr – eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi lleol, gyda mwy ar y ffordd? Bydd y cyntaf mewn cyfres o weithdai mewn person ar sut i wneud defnydd o'r systemau i'w cynnal yn:

- Aberdaron, ym Mecws Islyn, ar 28 Ebrill 2022, (6:00pm-7:30pm), ewch i: https://bit.ly/35ZTVzA

- Blaenau Ffestiniog, yn CellB, ar 4 Mai 2022, (6:00pm-7:30pm), ewch i:

https://bit.ly/3KuPXhx

# DIGWYDDIAD: Digwyddiad rhwydweithio mewn person yn Nolgellau

Cynhelir digwyddiad brandio, marchnata, cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithio ar gampws Grŵp Llandrillo Menai yn Nolgellau ar 27 Ebrill 2022. Bydd y digwyddiad yn cynnwys gweithdai yn ogystal â ffair fusnes fechan gydag amrywiaeth o wasanaethau cefnogi busnes ar gael i ateb cwestiynau a chynnig cyngor. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3uVukQT

Neu cysylltwch ar: 08445 460460 / busnes@gllm.ac.uk

# CYFLE: Busnes@LlandrilloMenai – Academi Ddigidol Werdd

Mae Busnes@LlandrilloMenai wedi lansio prosiect newydd arloesol sy'n darparu cymorth ymgynghori am ddim gan fentor

arbenigol i helpu busnesau lleol i leihau eu hôl troed carbon a manteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gllm.ac.uk/cy/busnes/projects/green-digital-academy

# DIGWYDDIAD: Cyflogwyr Maes Adeiladwaith – Prentisiaethau, Cyrsiau a Chyllid 10 Mai 2022

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd prentisiaethau adeiladu yng Nghymru yn wahanol a bydd gan gyflogwyr rôl ehangach o ran eu darparu. Bydd Busnes@LlandrilloMenai yn cynnal digwyddiad mewn person, ar 10 Mai 2022, yng Ngholeg Menai, Llangefni, i helpu busnesau a masnachwyr adeiladu i gael y wybodaeth diweddaraf am yr holl newidiadau ac am y cyrsiau a chyllido sydd ar gael. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3KLU49f

# GWOBRAU: Gwobrau Merched Cymru Mewn Busnes 2022

Mae Gwobrau Merched Cymru Mewn Busnes 2022 yn agored i bob merch sy'n rhedeg busnes yng Nghymru, gyda 16 categori ar gael i'w cipio. Mae enwebiadau yn agored tan 5:00pm, 8 Mai 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.llaiscymru.wales/gwobrau

# SGILIAU: Porth Sgiliau i Fusnes – Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Gall Rhaglen Sgiliau Hyblyg Busnes Cymru ddarparu arian i helpu uwchsgilio staff, gyda rhaglenni penodol ar gael i fynd i'r afael â bylchau a heriau mewn amrywiaeth o sectorau. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglen-sgiliau-hyblyg

## BREXIT: Mesurau rheoli ffiniau a seilwaith ar ôl ymadael â'r UE ym Mhorthladdoedd Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar beth sydd angen i chi ei wybod am y cyflwyniad o safleoedd rheoli ffiniau ym Mhorthladdoedd Cymru a throsolwg o'r gwiriadau ar y ffin ar nwyddau sy'n symud rhwng yr UE a'r DU. I ddarllen y canllawiau, ewch i:

https://llyw.cymru/rheolaethau-seilwaith-ffiniau-ar-ol-ymadael-ar-ue

## DIGWYDDIADAU: Digwyddiadau ar-lein FSB

Mae gan Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) nifer o ddigwyddiadau ar-lein dros yr wythnosau nesaf sy'n cwmpasu nifer o bynciau gan gynnwys cynllunio ariannol, gwerthu ar-lein, marchnata a thyfu eich busnes. Gellir cael manylion ar Galendr Digwyddiadau yr FSB, ewch i:

https://www.fsb.org.uk/event-calendar.html

Gall pob busnes hefyd ymuno â thîm FSB Cymru amser cinio pob dydd Iau i gysylltu â pherchnogion busnesau eraill o'r un anian, archebwch yn:

https://www.fsb.org.uk/event-calendar/wales-vn14apr.html

## DIOGELWCH: Annog ymwelwyr â lleoliadau poblogaidd i gynllunio ymlaen llaw

Mae Cyngor Gwynedd, Heddlu Gogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri yn annog pobl i ymddwyn yn gyfrifol ac i

gynllunio ymlaen llaw pan yn ymweld â chymunedau Gwynedd dros y misoedd nesaf. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd07Ebr2022

## Dymuniadau gorau ar gyfer gwyliau'r Pasg

Bydd bwletinau cefnogi busnes rheolaidd Cyngor Gwynedd yn dychwelyd ar ôl y Pasg. I gael y wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfamser, cadwch lygad ar:

https://twitter.com/BusnesGwynedd
https://twitter.com/CyngorGwynedd
https://twitter.com/_busnescymru
https://twitter.com/LlywodraethCym

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru